PECYN CYFRYNGAU 2017

SUT FYDDWCH CHI'N HYSBYSEBU I FYFYRWYR ELENI?

Cysylltwch a: Matt Lukasiak | mul8@aber.ac.uk | 01970 621704
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth | Penglais | Aberystwyth | SY23 3DX | **Rhif Elusen:** #1150576

Ffair y Glas

Y cyntaf i'r felin gaiff afael ar y Glas-fyfyrwyr...

UMAber yw'r lle gorau i hyrwyddo'ch gwasanaethau i fyfyrwyr Aberystwyth a does dim lle gwell i'w denu ar ddechrau'r tymor na Ffair y Glas! 2 ddiwrnod prysur yw'r Ffair sy'n caniatáu i'r 2,000 o fyfyrwyr newydd a'r myfyrwyr presennol gwrdd â phobl newydd a chanfod profiadau a chyfleoedd newydd.

Eleni byddwn yn cynnwys arddangosiad o'r hyn sydd gan Aberystwyth i'w gynnig dros ddau ddiwrnod - i gyd mewn un lleoliad. Gallwch ymgysylltu â myfyrwyr ar y naill ddiwrnod a'r llall, yn hytrach na chael eich cyfyngu i ddim ond un.

STONDINAU

Stondin gyffredinol: 1 x 1.5 m (sy'n cynnwys bwrdd 0.7 x 0.7).
Stondin bremiwm: 2 x 2 m (sy'n cynnwys bwrdd 1.5 x 0.7 m).

25 09/17

DYDD LLUN
25ain Medi,
9:30am - 4pm

26 09/17

DYDD MAWRTH
26ain Medi,
9:30am - 4pm

DISGOWNT ADAR CYNNAR

Mae'r disgownt Adar Cynnar ar gael ar gyfer stondinau sydd wedi'u harchebu a thalu amdanynt erbyn 21ain o Awst 2017.

15% I FFWRDD

Archebwch le yn Ffair y Glas a chewch 15% ODDI AR bris cyfryngau eraill.
Rhestr lawn yn: umaber.co.uk/hysbysebu

Nawdd

Fel elusen gofrestredig, mae gan UMAber amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer nawdd, gan gynnig cysylltiadau i gryfhau eich brand. Mae'r pecynnau'n cynnwys gwahanol lefelau o bresenoldeb y brand, y gellir eu haddasu ar gyfer amrywiaeth o wahanol gyllidebau.

MAE'R DIGWYDDIADAU'N CYNNWYS

- Wythnos Rhag-Las (Medi)
- Ffeiriau'r Glas (Medi)
- Ffair Dai a Llety (Tachwedd)
- Ail Ffair y Glas (Chwefror)
- Superteams (Chwefror)
- Rhyngolgampau Farsiti (Mawrth)
- Etholiadau'r Undeb (Mawrth)
- Gwobrau UMAber yn Dathlu (Ebrill)
- Rygbi 7-bob-ochr Aber7s (Mai)

Am fanylion ynglŷn â phob digwyddiad, ewch i'n gwefan: **umaber.co.uk/hysbysebu**

NODDWCH EIN TIMAU CHWARAEON A'N CYMDEITHASAU

- O logos ar ddillad i hysbysebu yn ystod ein digwyddiadau chwaraeon.

YMGYRCHOEDD A PHROSIECTAU GWIRFODDOLI

- Cefnogi ymgyrch myfyrwyr neu brosiect cymunedol gwe ladwy (e.e. glanhau'r traeth).

Cyfryngau'r Glas

ARWEINIAD I'R UNDEB A SIARTIAU WAL

Dosberthir Arweiniad ir Undeb a Siartiau Wal yn eang

- Anfonir y rhain i bob glas-fyfyriwr sy'n dod o'r DU (tua 2,000)
- Rhoddir copi i 300 o lasfyfyrwyr rhyngwladol
- Rydym yn eu dosbarthu yn ein hadeilad a Ffeiriau'r Glas
- Mae'r brifysgol yn eu dosbarthu yn y neuaddau preswyl
- Hefyd ar gael ar ein gwefan

01

LLAWLYFR YR UNDEB

Dyddiad cau gan gynnwys delweddau - 21ain o Awst

Hwn yw'r cyhoeddiad cyntaf mae myfyrwyr yn ei gael gan yr Undeb. Mae'n arweiniad cynhwysfawr ynglŷn â'r hyn rydyn ni'n ei wneud, ac mae'n hanfodol i bob myfyriwr.

02

SIART WAL

Dyddiad cau gan gynnwys celfwaith - 21ain o Awst

Bydd y siartiau wal lliwgar hyn yn aros mewn ystafelloedd gwely a cheginau gydol y flwyddyn - lle delfrydol i hysbysebu.

03

GOHEBIAETH CYN-CYRRAEDD

Dyddiad cau gan gynnwys celfwaith - 21ain o Awst

Anfonir yr ohebiaeth hon allan at 2,000 o las-fyfyrwyr yn y DU, tua dechrau Medi. Mae'n cynnwys Siart Wal, Arweiniad i'r Undeb ac ychwanegiadau (un dudalen, hyd at A5). Dyma'ch cyfle chi i hyrwyddo eich mudiad i las-fyfyrwyr a'u rhieni cyn unrhyw un arall.

MANYLION CELFWAITH

Mae croeso i chi gysylltu â ni am fanylion ynglŷn â chelfwaith.

Pecynnau'r Glas

01

NODDWR FFAIR Y GLAS

Wythnos y Glas yw adeg prysuraf y fl-wyddyn i ni. Mae gennym ni becyn sy'n sicrhau'r lefel uchaf o gyhoeddusrwydd.

Noder: Dim ond un ar gael ar gyfer pob diwydiant.

PECYN YN CYNNWYS

1) 2 ddiwrnod o Ffeiriau'r Glas
Bwrdd dwbl a 4 cadair (hyd at 6 aelod staff) Lleoliad amlwg wedi'i ddewis gyda'r stondinwyr

2) Baner ar du allan y babell am 2 ddiwrnod

3) Hysbyseb yn arweiniad yr undeb arlein

4) Hysbyseb ar y Siart Wal

5) Pennawd ar y Wefan (1 tymor)

6) Cyfryngau Cymdeithasol (4 post drwy Facebook a Twitter)

7) Dosbarthu taflenni yn ystod Ffeiriau'r Glas

Diddordeb? Cysylltwch a ni

02

STONDIN ARBENNIG YN FFAIR Y GLAS

Bwrdd dwbl a 4 cadair (hyd at 6 aelod staff) Lleoliad amlwg wedi'i ddewis gyda'r stondinwyr

Noder: nifer cyfyngedig sydd ar gael

1 Diwrnod: £700

2 Diwrnod: £1,100

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth | Penglais | Aberystwyth | SY23 3DX | **Rhif Elusen:** #1150576

Ar y Campws

Mae Undeb y Myfyrwyr ar gampws Penglais yn lle bywiog sy'n denu dros 1,000 o fyfyrwyr bob dydd!

SGRIN Y TÎM CROESO

Beth am hysbysebu ar ein sgrin 42" sydd wedi'i lleoli ger Desg Groeso'r UM? Bydd eich hysbyseb yn ymddangos am 10 eiliad, tua 30 gwaith bob awr.

STONDIN HYRWYDDO YN YR UNDEB

Byddwn ni'n gweithio gyda chi i sicrhau eich bod chi'n dal sylw'r myfyrwyr yn ystod ein cyfnodau prysuraf.

POSTERI

Gallwn osod posteri A3 neu A2 o gwmpas y prif leoliadau.

TAFLENNI

Byddwn yn gosod allan eich taflenni ar 40 o fyrddau tu mewn i'r Undeb.

NODER:

Cysylltwch â ni am opsiynau ar gampws Llanbadarn. Holwch am fanylion.

Digidol

AR-LEIN

www.umaber.co.uk a www.abersu.co.uk

Ein gwefan yw'r pwynt cysylltu cyntaf ar gyfer clybiau, cymdeithasau, digwyddiadau a newyddion, sy'n ei wneud yn lle gwych i hysbysebu.

PENNAWD AR Y WEFAN

Bydd eich hysbyseb yn ymddangos mewn lŵp ar ochr dde brig y sgrin.

26 MEDI - 26 HYDREF 2016	
DEFNYDDWYR UNIGRYW:	12,176
NIFER SYDD WEDI GWELD Y DUDALEN:	139,998

2016/17 CYFANSWM AR GYFER Y TYMOR	
DEFNYDDWYR UNIGRYW:	40,730
NIFER SYDD WEDI GWELD Y DUDALEN:	359,282

CALENDR AR-LEIN

Ychwanegwch eich digwyddiad at galendr y myfyrwyr am ddim ond £50.

PYST AR GYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cewch gyfathrebu eich neges drwy ein dwy brif sianel cyfryngau cymdeithasol.

: 6,346 yn eu hoffi

: 3,984 o ddilynwyr

NODER:

Cysylltwch â ni am opsiynau ar gampws Llanbadarn. Holwch am fanylion

Telerau ac Amodau

TELERAU AC AMODAU CYFFREDINOL

- Yn yr amodau hyn:

• Golyga "UMPA" "Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth".

• Golyga "y Cleient" y sawl sy'n gosod yr archeb gydag UMPA ar gyfer cynnwys teclyn hyrwyddo

• Mae'r ffurflen archebu (ar ffurf papur neu e-bost) yn gytundeb sy'n ymrwymo'r sawl sy'n ei llofnodi ac mae'r trefniant yn daladwy. Ni ellir ad-dalu na chanslo unrhyw drefniant unwaith y caiff ei gytuno.

• Ni chynhelir unrhyw weithgaredd hysbysebu oni fydd ffurflen archebu wedi cael ei chwblhau'n gywir a bod y telerau ac amodau wedi cael eu llofnodi.

• Rhaid i'r Cleient darparu'r holl gelfwaith (oni chytunir fel arall). Rhaid darparu celfwaith yn unol â'r manylion technegol a osodir gan UMPA.

• Rhaid i bob hysbyseb gadw at bolisi dwyieithrwydd yr Undeb.

• Rhaid i bob hysbyseb gydymffurfio â Chod Ymarfer Hysbysebu Prydain (2010) a'r Ddeddf Disgrifiadau Masnach (1968), ac unrhyw ddeddf neu reoliad sy'n sicrhau safonau hysbysebu.

• Ni chaiff hysbysebion dorri unrhyw hawlfraint neu eiddo deallusol, ac ni chaniateir iddyn nhw fod yn ddifenwol, yn dwyllodrus, yn gamarweiniol, neu'n ffug. Mae UMPA yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw drefniant.

• Mae UMPA yn cadw'r hawl i ddiddymu unrhyw Gleient a/ neu eu hysbysebion os ystyrir hwy i fod yn groes i bolisïau ac arferion moesegol yr Undeb. Prif Weithredwr UMPA fydd â'r penderfyniad terfynol.

• Ni fydd UMPA yn cymryd cyfrifoldeb os caiff lluniau neu gyfryngau hysbysebu eu niweidio neu eu colli.

• Mae derbyn pob trefniant ar gyfer cyfryngau'n amodol ar argaeledd. Un mudiad ar gyfer pob archeb.

• Ni fydd UMPA yn cymryd cyfrifoldeb am gynnwys unrhyw hysbyseb neu hyrwyddiad, ac ni fydd yn atebol am unrhyw drafodion a gaiff eu cwblhau o ganlyniad i hyrwyddiad neu hysbyseb yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

• Os yw UMPA am unrhyw reswm yn canslo unrhyw gyhoeddiad, neu ran ohono, neu os yw'n methu cwblhau eu goblygiadau dan y cytundeb hwn, bydd atebolrwydd UMPA yn gyfyngedig i ad-dalu unrhyw daliadau a wnaed gan yr arddangoswr i Undeb y Myfyrwyr dan y cytundeb hwn.

• Ni fydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ychwanegyn, taflen a/ neu boster. Mae'r Cleient yn derbyn cyfrifoldeb llawn am ansawdd a diogelwch unrhyw ddeunydd neu gynnyrch hysbysebu.

• Mewn achos lle nad oes gan y sawl sy'n arwyddo'r awdurdod angenrheidiol i gyflwyno archebion pryniant, ond eu bod wedi'i arwyddo, gall UMPA hawlio unrhyw arian sy'n ddyledus gan y sawl sydd â'r awdurdod i arwyddo.

• Bydd y Cleient yn digolledu UMPA yn llawn yn erbyn unrhyw hawlio, ceisiadau, achosion cyfreithiol, colledion, difrod, costau, treuliau ac atebolrwydd sy'n deillio o unrhyw dorri neu fethu perfformio unrhyw addewidion, gwarantau neu delerau eraill a gaiff eu cynnwys yn yr amodau hyn neu a gaiff eu cyfleu dan y gyfraith.

• Bydd y cytundeb hwn yn amodol ar gyfraith Lloegr ac awdurdodaeth Llysoedd Lloegr.

TELERAU AC AMODAU AR GYFER FFAIR Y GLAS A STONDINAU

• Caniateir gwerthu yn ystod y Ffair.

• Caiff safle eich stondin o fewn y Ffair ei ddewis ar hap.

• Anfonir manylion a chyfarwyddiadau'r Ffair i chi o leiaf wythnos cyn diwrnod y ffair. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych y manylion hyn.

• Ni all arddangoswyr ond hyrwyddo eu cynhyrchion neu wasanaethau eu hunain. Os canfyddir bod deiliad stondin yn hyrwyddo trydydd parti, bydd gofyn iddo/i adael a chaiff ei hebrwng o'r safle os oes angen.

• Ni chaiff arddangoswyr ond hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau o fewn cylch eu stondin. Bydd gofyn i unrhyw un a welir yn dosbarthu deunydd hyrwyddo neu'n casglu data ar y safle y tu hwnt i'w stondin, i adael; ni chynigir ad-daliad.

• Ni chynigir unrhyw stondin er mwyn hyrwyddo cyffredin gydol y tymor yn ystod Wythnos y Glas (25ain – 30ain Medi 2017).

• Rhaid i chi sicrhau bod eich holl gyfarpar trydanol wedi pasio prawf PAT a'i fod wedi ei gynnal a'i gadw'n gywir.

• Rhaid talu am bob trefniant ar gyfer Ffair y Glas cyn i'r digwyddiad ddechrau.

• Os, am unrhyw reswm, mae UMPA yn canslo stondin hyrwyddo, neu ran ohoni, caiff eu hatebolrwydd ei gyfyngu i ad-daliad o unrhyw daliadau a wnaed gan y Cleient i UMPA.

• Polisi canslo: Rhaid i'r Cleient hysbysu pob diddymiad mewn ysgrifen i UMAber. Gellir gwneud eithriad ar ddisgresiwn UMPA yn unig.

• Ni fydd UMPA yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb parthed y niferoedd sy'n mynychu unrhyw ddigwyddiad.

• Mae'r arddangoswyr yn gyfrifol am ddiogelwch eu heiddo. Ni all Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth fod yn gyfrifol am niwed neu ladrad oni achosir gan esgeulustod dybryd ar ein rhan ni. Cyfrifoldeb y Cleient fydd unrhyw offer neu gynnyrch a gaiff ei storio dros nos.

• Rhaid i'r Cleient fod â'i Yswiriant Atebolrwydd ei hun; ni fydd UMPA yn gyfrifol am ymddygiad Cleientiaid yn ystod y gweithgaredd.

• Rhaid i'r Cleient ddarparu asesiad risg a datganiad o ddulliau gweithredu o leiaf 7 diwrnod cyn y cynhelir y trefniant ar gyfer unrhyw weithgaredd ar y bwrdd hyrwyddo.

• Codir tal am unrhyw niwed a achosir gan y Cleient i'r byrddau cefnu, waliau, nenfwd, y llawr neu'r adeilad yn gyffredinol, gan gynnwys unrhyw gostau glanhau.

• Os ydych chi'n bwriadu dosbarthu samplau bwyd, rhaid i chi gysylltu â ni ar unwaith - byddwn angen dogfennaeth ychwanegol.

• Rhowch wybod i ni ymhell o flaen llaw os oes gennych unrhyw anghenion arbennig.

DIFFINIADAU AR GYFER PECYN CYFRYNGAU 2017

Busnes Cenedlaethol / Clwb nos - Cwmni Cenedlaethol / Rhyngwladol / Clwb Nos.

Busnes Lleol - Nid yw'r cwmni'n gweithredu'n genedlaethol ac mae ei brif leoliad yng Ngheredigion.

Elusen - Nodwch rif yr elusen

- Nid yw'n gwmni Cyfyngedig/Corfforedig; un person yn unig sy'n ei berchen a hwnnw/honno yw'r nuig berson sy'n gweithio i'r busnes.

Myfyrwyr UA / Alumni Dosbarth 2016 – holwch am bris arbennig.